DEFAID MYNYDD CYMREIG

Cynhelir diwrnod agored Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig 2023 o dan nawdd cangen Sir Ddinbych eleni ar Fferm Tŷ Celyn, Rhiw, Groes, Dinbych ar **b'nawn Sadwrn 30$^{ain}$ o Fedi am 1 y prynhawn** drwy garedigrwydd Iorwerth a Bet Williams a'r teulu.

Mae Tŷ Celyn yn bridio defaid a hyrddod Cymreig ers dros bedair cenhedlaeth. Mae'r fferm yn pori 300 erw sy'n ymestyn o 900 o droedfeddi hyd at 1200 troedfedd ar ran uchaf y fferm.

Cedwir diadell o 450 o fogau Cymreig a 100 o sbinod blwydd. Caiff 300 o'r mogau eu cadw yn bur gyda 150 yn cael eu croesi gyda hwrdd wyneblas Caerlyr. Maent hefyd yn cadw 300 o fogau miwl Cymreig gan ddefnyddio hyrddod Texel. Gwerthir yr wyn tew trwy farchnad Llanelwy. Byddant hefyd yn gwerthu tua 100 o wyn benyw texel a miwl yn arwerthiant Rhuthun yn flynyddol.

Cedwir 15 o fuchod sugno croes gan ddefnyddio tarw Limousin ac yn gwerthu gwartheg stôr rhwng 15 ac 20 mis oed.

Bydd lluniaeth ysgafn yn cael ei ddarparu ar eich cyfer.

I gyrraedd Tŷ Celyn, o gyfeiriad Dinbych, rhaid troi ym mhentref Groes tuag at Rhydgaled - dal i fynd am tua milltir a hanner nes cyrraedd tŷ fferm Tŷ Celyn ar y llaw chwith.

O gyfeiriad Pentrefoelas, gyrrwch drwy bentref Bylchau i gyfeiriad Dinbych, troi i'r chwith ar ôl 600 llath tuag at Rhydgaled (mae arwydd am Rhydgaled a Chapel Rhiw ar y troad). Bydd y ffordd yn fforchio mewn llai na milltir a bydd angen cadw i'r dde, troi i'r dde ar y groesffordd ac yna bydd tŷ fferm Ty Celyn ar y dde mewn 300 llath.

Cod Post – LL16 5SD

What3words – sganio.cydiwn.llafar (english – expose.aquatics.agents)





DEFAID MYNYDD CYMREIG

The 2023 Welsh Mountain Sheep Society Open Day will be held under the auspices of the Denbighshire branch at Tŷ Celyn Farm, Rhiw, Groes, Denbigh on Saturday **30th of September at 1:00pm**, courtesy of Iorwerth and Bet Williams & family.

Tŷ Celyn has been breeding Welsh Mountain Sheep and rams for over four generations. The farm grazes 300 acers which extends from 900feet up to 1200 feet. A flock of 450 Welsh ewes and a 100 yearlings is reared. 300 of the ewes are pure bread and a 150 are crossed with a blue faced leister ram. The farm also keep 300 Welsh mules using texel rams. All the fat lambs are sold at St Asaph market. Tŷ Celyn also sell around a 100 texel and mule ewe lambs at Ruthin Market's annual sale.

15 cross suckler cows are kept using a Limousin bull and sell stors between 15 and 20 months old.

Light refreshments will be provided for you.

To reach Tŷ Celyn, from the direction of Denbigh, you must turn in the village of Groes towards Rhydgaled - keep going for about a mile and a half until you reach Tŷ Celyn's farmhouse on the left.

From the direction of Pentrefoelas, drive through the village of Bylchau in the direction of Denbigh, turn left after 600 yards towards Rhydgaled (there is a sign for Rhydgaled and Chapel Rhiw at the turn). The road will fork in less than a mile and it will be necessary to keep to the right, turn right at the crossroads and then Ty Celyn's farm house will be on the right in 300 yards.

Postcode – LL16 5SD. What3Words – expose.aquatics.agents



